# Pam ddaeth yr Iesu i'r byd


Daeth yr Iesu i'r byd â chenhadaeth neu neges bwysig. Pan wnaeth Adda ac Efa anufuddhau i Dduw yng Ngardd Eden, daeth pechod i'r byd. Mae pechod yn golygu mynd yn erbyn ewyllys Duw, anufuddhau. Mae'r Beibl yn dweud bod pawb yn pechu a'n bod ni gyd yn haeddu cael ein cosbi gan Dduw. Ond mae Duw'n ein caru ni gymaint fel Ei fod wedi rhoi Ei unig Fab i farw oherwydd ein pechodau ni. Fe fu Iesu farw ar y groes ond daeth yn fyw eto a nawr mae Ef gyda'i Dad yn y nefoedd. Mae pawb sy'n credu yn yr Iesu ac yn gofyn iddo eu hachub, bod yn Waredwr iddynt, yn cael maddeuant ac yn cael byw am byth yn nheyrnas Duw. Dyma pam y daeth yr Iesu i'r byd.





**"Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."** Ioan 3:16

# Faint o bili-palaod sydd yn y llun hwn? Allwch chi eu cyfrif?






Tynnwch lun o rywbeth o fywyd yr Iesu sydd wedi aros yn eich meddwl mewn rhyw ffordd arbennig.

# Gwers 31
# Pam ddaeth yr Iesu i'r byd

**Testun Beibl:** Ioan 3:16 a Mathew 20:28.

**Adnod allweddol:** John 3:16

**Pwrpas:** Bydd y plant yn deall pam y daeth Iesu i'r byd.

**Nodwch os gwelwch yn dda!**

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

## I. Gwers

**I ddechrau, gallwch ddefnyddio'r stori hon i ddarlunio:**

Un tro roedd yna goeden yn byw mewn cae. Yn y goeden hon roedd miloedd o lindys yn byw ac roedden nhw'n lladd y goeden. Oherwydd y lindys, roedd y goeden yn edrych mor hen a hyll. Roedd y rhain yn gymaint o niwsans fel y dechreuon nhw frifo'i gilydd. Roedd hi wir yn afiach eu gweld nhw'n llusgo'u hunain ar risgl yr hen goeden heb unrhyw obaith! Un adeg, roedd y goeden hon yn un o'r mwyaf hardd yn y cae. Roedd y landlord yn wirioneddol falch ohoni. Ond nawr … o diar, roedd yn edrych yn druenus iawn. Uwchben y goeden hyll honno, roedd cannoedd o bili palaod o bob lliw yn hedfan ac roedden nhw'n drist iawn fod y lindys bach yn difetha'r goeden. Ymhlith y pili palaod hyn, roedd un a oedd y mwyaf prydferth o'r cwbl. Ef oedd mab brenin y pili palaod. Roedd brenin y pili palaod yn frenin da ac roedd ganddo bwerau rhyfeddol, ac roedd yntau'n teimlo'n drist iawn o weld y creaduriaid trist, diobaith hyn. Felly, cafodd syniad: anfon y tywysog, ei unig fab, i ganol y lindys i roi'r gyfrinach y gallen nhw ryw ddiwrnod ddod yn bili palaod bob lliw. Ar unwaith, newidiodd tywysog y pili palaod yn lindysyn ac aeth i lawr at risgl y goeden. Ond roedd yn methu deall pam nad oedd unrhyw un ei eisiau nac yn barod i wrando arno. Fe wnaeth rhai o'r lindys ei dderbyn ac roedden nhw'n hoffi'r hyn oedd ganddo i'w ddweud. Ond fe wnaeth y mwyafrif hwyl ar ei ben a'i amharchu, roedden nhw'n ei gasáu ac eisiau ei ladd am ei fod yn tarfu arnyn nhw â'i storïau am obaith i'r dyfodol. Sut allai fod yn bosibl newid o fod yn lindys i bili pala?

Yn y diwedd, roedd y lindys mor flin fod y tywysog wedi dod fel y gwnaethon nhw ei guro a'i ladd. Yna fe wnaethon nhw ei roi mewn cocŵn, ac yno y bu ef am ddyddiau. Wel, 'doedd neb yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd oherwydd, dri diwrnod wedi'r digwyddiad trist hwn, daeth tywysog y pili palaod allan mor hardd ac o bob lliw fel bod pawb oedd wedi'i weld o'r blaen yn rhyfeddu at y newid ynddo a pha mor brydferth yr oedd ef. Roedd y lindys caredig yn hapus dros ben i weld hyn ac roedden nhw'n aros yn eiddgar i newid un diwrnod yn bili palaod bob lliw. Newidiodd y lindys oedd yn casáu'r tywysog yn bili palaod hefyd ond roedden nhw'n ddu, yn hyll, yn drist ac yn ddiobaith. Allen nhw ddim hedfan mor uchel o gwmpas y meysydd a'r caeau, yn mwynhau eu rhyddid. Ond gallai'r pili palaod bob lliw hedfan i bobman yn rhydd.

Dim ond stori yw hon. Ond rwy'n adnabod rhywun sy'n llawer mwy pwerus na brenin y pili palaod, a wnaeth union yr un peth. Rwy'n siarad am Dduw, ein Tad wnaeth anfon ei unig Fab i'r ddaear i fyd yn llawn pethau drwg – pechod – er mwyn dod â gobaith, rhyddid a bywyd am byth i ni. Beth am i ni ddarllen o'r Beibl er mwyn gweld pam y gwnaeth Duw anfon Iesu i'r byd. Darllenwch Ioan 3:16 a Mathew 20:28, yna trafodwch yr adnodau hyn.

**II. Gweithgareddau**

**Gweithgaredd lliwio**

Daeth Iesu i'r byd ac roedd ganddo genhadaeth bwysig. Pan wnaeth Adda ac Efa anufuddhau i Dduw yng Ngardd Eden, daeth pechod i'r byd. Mae pechod yn golygu anufuddhau i Dduw. Mae'r Beibl yn dweud bod pawb yn pechu a'n bod ni gyd yn haeddu cosb Duw. Ond mae Duw'n ein caru ni gymaint fel y rhoddodd ei unig Fab i farw dros eich pechodau. Bu farw'r Iesu ar y groes a chododd eto ac yn awr mae gyda'i Dad yn y nefoedd. Mae pawb sy'n caru'r Iesu ac yn gofyn iddo fod yn Achubwr iddyn nhw yn cael maddeuant a bywyd tragwyddol yn nheyrnas Duw. Dyma pam ddaeth yr Iesu i'r byd.

**2. Adnod allweddol**

**a.Darllenwch yr adnod yn uchel.**

"Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol." Ioan 3:16

**b. Eglurwch yr adnod.**

Mae'r adnod hon hefyd yn cael ei galw'n adnod aur oherwydd bod neges gyfan y Beibl i'w chael yma.

Mae Duw'n ein caru'n fawr iawn.

Faint? Cymaint fel Ei fod yn barod i roi Ei Fab.

Pam? Fel nad yw pawb sy'n credu ynddo yn marw ond yn hytrach yn cael bywyd tragwyddol.

**c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.**

Gwnewch yn siŵr fod pob un plentyn yn dysgu Ioan 3:16.

**3. Adolygwch y cwestiynau ar gyfer y plant.**

- Beth yw enw Mab Duw?
- Pam wnaeth y Tad anfon ei Fab i’r byd?
- Pam y daeth Iesu i’r ddaear?
- Pa groeso gafodd yr Iesu?
- Beth wnaeth y bobl i’r Iesu?
- Beth mae Duw y Tad yn ei wneud ar gyfer y rhai sy’n credu yn Ei Fab?
- Pwy sy’n cael bywyd tragwyddol?

## III. Diweddglo

Anfonodd Duw y Tad ei Fab i’r byd er eich mwyn chi. Roedd yn gwybod eich enw cyn i chi gael eich geni. Mae’n eich caru chi gymaint fel bod Iesu wedi marw am eich pechodau chi. Mae eisiau maddau i chi a rhoi i chi fywyd tragwyddol. Dyma pam ddaeth Iesu i’r byd: i’ch achub chi a rhoi i chi fywyd tragwyddol. Gallwch fod yn greadur newydd fel y pili palaod o bob lliw yn y stori. Ond i wneud hyn rhaid i chi dderbyn Ei rodd. Credwch yn yr Iesu, gofynnwch iddo fod yn rhan o’ch bywyd a dilynwch Ef!